OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 558

## Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018

## RHAN 4

### Darpariaeth Drosiannol

**Darpariaeth drosiannol**

**29.** Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo, cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, mewn perthynas ag adeilad ynni a eithrir—

(a) hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol, tystysgrif planiau neu hysbysiad corff cyhoeddus yn cael ei roi i awdurdod lleol, neu gynlluniau llawn yn cael eu hadneuo gydag awdurdod lleol; neu

(b) gwaith adeiladu yn cael ei wneud neu wedi ei wneud yn unol ag unrhyw hysbysiad neu blaniau o'r fath, pa un a oes unrhyw wyro oddi wrth yr hysbysiad hwnnw neu'r planiau hynny ai peidio.